**PWYLLGOR CYNLLUNIO**
**10 EBRILL 2024**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Cynllunio Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd fel cyfarfod hybrid ddydd Mercher, 10 Ebrill 2024

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Richard Lloyd (Cadeirydd)**

Y Cynghorwyr: Chris Bithell, Helen Brown, Paul Cunningham, Rob Davies, Adele Davies-Cooke, Carol Ellis, Gladys Healey, Dave Hughes, Paul Johnson, Richard Jones, Hilary McGuill, Ted Palmer, Mike Peers a Dan Rose

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorwyr: Mike Allport a Bernie Attridge

**HEFYD YN BRESENNOL:** Roedd y canlynol yn bresennol fel Aelodau Lleol:

Y Cynghorwyr Mared Eastwood a Marion Bateman (ar gyfer eitem rhif 6.1 ar y rhaglen)
Y Cynghorydd Kevin Rush (ar gyfer eitem rhif 6.3 ar y rhaglen)

**HEFYD YN Y CYFARFOD:** Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi),
Rheolwr Gwasanaeth – Strategaeth,
Rheolwr Gwasanaeth – Datblygu,
Uwch Beiriannydd – Rheoli Datblygu Priffyrdd,
Uwch Swyddogion Cynllunio, Cyfreithiwr a Swyddogion y Gwasanaethau Democrataidd

## 62. DATGAN CYSYLLTIAD

Datganodd y Cynghorydd Rob Davies gysylltiad personol sy'n rhagfarnu (mewn perthynas ag eitem rhif 6.3 ar y rhaglen)

## 63. SYLWADAU HWYR

Bydd y sylwadau hwyr yn cael eu cyflwyno cyn trafod pob eitem.

## 64. COFNODION

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Mawrth 2024 yn gofnod cywir ac fe'u cynigiwyd a'u heiliwyd gan y Cynghorwyr Dave Hughes a Ted Palmer.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod gwir a chywir.

**65. <u>EITEMAU I'W GOHIRIO</u>**

Ni argymhellwyd gohirio unrhyw eitem.

**66. <u>ADRODDIADAU'R PRIF SWYDDOG (CYNLLUNIO, YR AMGYLCHEDD A'R ECONOMI)</u>**

**<u>PENDERFYNWYD</u>:**

Cofnodi'r penderfyniadau fel y'u gwelir ar y rhestr o Geisiadau Cynllunio sydd wedi'i chynnwys fel atodiad.

**67. <u>AELODAU'R CYHOEDD A'R WASG HEFYD YN BRESENNOL</u>**

Roedd 7 o aelodau'r cyhoedd yn bresennol ar ddechrau'r cyfarfod.

(Dechreuodd y cyfarfod am 2pm a daeth i ben am 2.51pm)

**…………………………**
**Y Cadeirydd**

Caiff cyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio eu gweddarlledu, a gellir eu gwylio drwy fynd i'r llyfrgell weddarllediadau yn: http://flintshire.public-i.tv/core/portal/home

**PWYLLGOR CYNLLUNIO AR 10 EBRILL 2024**

| RHIF YR EITEM | CYNGOR TREF / CYMUNED | SAFLE / CAIS | SYLWADAU TRYDYDD PARTI / AELOD LLEOL | PENDERFYNIAD |
|---|---|---|---|---|
| 063507 | | Cais llawn - Datblygiad preswyl ar gyfer 90 annedd, gan gynnwys darpariaeth unedau fforddiadwy, ardaloedd o fannau agored cyhoeddus, tirlunio a gwaith cysylltiedig ar dir i'r de o New Brighton Road, New Brighton, Yr Wyddgrug, CH7 6RB. | Derek Walters – preswylydd<br>Carl Davis – Ymgeisydd<br>Y Cynghorydd Mared Eastwood<br>Y Cynghorydd Hilary McGuill<br>Y Cynghorydd Marion Bateman | Cymeradwywyd yn unol ag Argymhelliad y Swyddog, gyda'r amodau a nodir yn yr adroddiad ac yn y Sylwadau Hwyr a Rhwymedigaethau Adran 106. |
| COU/000312/ 23 | | Cais llawn - Newid defnydd o Ddosbarth C3 (Annedd Preswyl Sengl) i Ddosbarth C4 (Tŷ Amlfeddiannaeth) yn 4 Salisbury Street, Shotton. | Y Cynghorydd Sean Bibby | Cymeradwywyd yn unol ag Argymhelliad y Swyddog, gyda'r amodau a nodir yn yr adroddiad ac yn y Sylwadau Hwyr. |
| FUL/000254/ 22 | | Cais llawn - Cais i godi strwythur ynghyd â ffurfio mynediad (Rhannol ôl-weithredol) yn Ystâd Ddiwydiannol Glannau Dyfrdwy, Whelston, Bagillt. | Y Cynghorydd Kevin Rush<br>Christopher Owens – preswylydd<br>Kerry Davies – cynrychiolydd yr Ymgeisydd | Cymeradwywyd yn unol ag Argymhelliad y Swyddog, gyda'r amodau a nodir yn yr adroddiad ac yn y Sylwadau Hwyr, a gan gynnwys amod(au) ychwanegol fel a ganlyn:<br><br>9. Ni cheir datblygu ymhellach nes y bydd adroddiad/ymchwiliad peirianyddol ac asesiad risg wedi'u cyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio |

| RHIF YR EITEM | CYNGOR TREF / CYMUNED | SAFLE / CAIS | SYLWADAU TRYDYDD PARTI / AELOD LLEOL | PENDERFYNIAD |
|---|---|---|---|---|
| | | | | Lleol mewn perthynas â sadrwydd/cadernid strwythurol y tir/y lan ar hyd ffin ogleddol/ogledd-orllewinol safle'r cais, yn ychwanegol at unrhyw asesiad a ddarparwyd gyda'r cais cynllunio, a bod y rheiny wedi'u cymeradwyo'n ysgrifenedig gan yr Awdurdod hwnnw. Rhaid i'r ymchwiliad a'r asesiad risg gael eu cynnal gan unigolion cymwys.<br><br>10. Os canfyddir bod y tir/y lan sy'n destun yr adroddiad/ymchwiliad peirianyddol ac asesiad risg sy'n ofynnol dan Amod rhif 9 yn annigonol o ran sadrwydd/cadernid strwythurol, rhaid cyflwyno manylion strwythur cynnal i liniaru unrhyw broblemau o'r fath i'r Awdurdod Cynllunio Lleol, a rhaid i'r Awdurdod hwnnw ei gymeradwyo'n ysgrifenedig. Bydd unrhyw strwythur cynnal a gymeradwyir yn cael ei gadw a'i gynnal yn barhaol. |